Online Research @ Cardiff

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: http://orca.cf.ac.uk/97009/

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Rosser, Siwan Meleri 2016. Thomas Levi a Dychymyg y Cymry. Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd 40 , pp. 87-102. file

Publishers page:

Please note:
Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See http://orca.cf.ac.uk/policies.html for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.

information services
gwasanaethau gwybodaeth

THOMAS LEVI A DYCHYMYG Y CYMRY

Ym marn y diweddar Hywel Teifi Edwards, y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd 'y ganrif fwyaf' yn hanes y genedl. Dyma gyfnod a welodd drawsnewid cymdeithasol ysgytwol ym mywyd, gwaith a meddylfryd y trigolion ac a osododd sylfeini'r Gymru fodern.[1] Ond ers canrif a mwy bellach, buom yn ymgodymu â'i hanes a'i syniadaeth ac yn amharod i arddel 'y ganrif fwyaf' yn llawn. Ar y naill law, hiraethwn am gyfnod pan oedd y Gymraeg yn iaith y mwyafrif gan genfigennu at ddiwylliant a allai gynnal dros hanner cant o gyfnodolion a dwsin o bapurau Cymraeg yn wythnosol, misol a chwarterol. Ar y llaw arall, tueddwn fychanu canu ffuantus y beirdd eisteddfodol a sentiment melys-ber y beirdd telynegol ac ystyried cynnyrch y wasg yn llifeiriant annisgybledig o gyfieithu ac efelychu clogyrnaidd. Fel y dywed Peredur Lynch mewn cywydd i annerch Hywel Teifi:

> Rhoesom ein collfarn arni
> A'n sen ar ei rhodres hi,
> A'n rhan fu gwatwar o hyd
> Ei hawdlau cloff a rhydlyd.
> Gwae iaith chwyddedig ei gwŷr,
> Gwae hwythau ei beirdd-bregethwyr.[2]

Pe na bai arddull lenyddol y cyfnod yn ddigon i ennyn ein dirmyg y mae, wrth gwrs, seicoleg genedlaethol y cyfnod yn fwrn arnom. Beth a wnawn â chyfnod o flaguro gwladgarol Cymreig a oedd hefyd yn sawru'n drwm o Brydeindod a balchder ymerodrol? Buom yn araf i wynebu'r cyfnod a'i ddylanwad, ac wynebu, dan ddylanwad Hywel Teifi a haneswyr llên eraill megis E. G. Millward, Jane Aaron ac yn fwy diweddar a dadleuol efallai, Simon Brooks, fod clais y llyfrau Gleision a dwndwr Prydeindod Oes Victoria 'Yn un baich yn nwfn ein bod', yng ngeiriau Peredur Lynch.[3]

Rhybudd mawr Hywel Teifi, wrth gwrs, oedd na allwn fforddio anwybyddu'r ganrif chwyldroadol hon – a gwae ni os bychanwn y modd yr oedd beirdd, llenorion, pregethwyr, ysgolheigion a newyddiadurwyr yn mynegi eu hymateb i'w byd. Ond mae perygl, gyda threigl amser, i'r gwŷr a gwragedd hynny fynd yn angof. Y mae cymeriadau a fu mor fawr eu presenoldeb a'u dylanwad yn ystod eu hoes, ac am genhedlaeth neu ddwy wedyn, yn rhwym o lithro o'r golwg os nad oes ymdrech gydwybodol i gynnal y cof amdanynt. Yn oes Victoria, wrth gwrs, y sefydlwyd y dulliau hynny o gynnal cof – yn gofiannau printiedig a chofgolofnau gweledol – a thrwy'r dulliau hynny y gellid gosod stamp ac awdurdod unigolion yn llythrennol ar yr amgylchedd diwylliannol a ffisegol.

Gwnaeth Thomas Levi (1825–1916) fwy na'i siâr yn yr ymdrech hon i greu a chynnal cof ac yn sgil hynny, i lunio cenedl, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ysgrifennodd gofiannau i bregethwyr megis Evan Harries, Merthyr (1786–1861) a Howell Powell, Efrog Newydd (1819–1875). Lluniodd draethodau bywgraffyddol dan y teitl 'Cedyrn Cymru' i goffáu'r Ficer Prichard, Daniel Rowland, Hugh Owen ac eraill. A bu'n allweddol yn yr ymgyrchoedd i godi cofgolofnau i bobl megis Thomas Charles, Williams Pantycelyn, a'r Esgob William Morgan.

Eto, ni chafwyd yr un cofiant cyflawn i'r gŵr amryddawn hwn yn ystod ei oes nac wedyn, ac nid oes cofgolofn wedi ei godi ar ei gyfer. O ganlyniad, mae'r cof amdano'n breuo, ond heb ddiflannu'n llwyr. Diau ei fod yn enw cyfarwydd i nifer a ŵyr am ei gyfraniad aruthrol i gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yn ystod ei oes hir, ond ychydig o le sydd iddo yn hanesyddiaeth gyffredin Cymru.[4] Fe'i ganed yn Ystradgynlais yn 1825 a bu farw yn Aberystwyth yn 1916. A hithau yn ganrif ers ei farwolaeth eleni, y mae'n amserol ac yn briodol inni gofio amdano ac archwilio'r hyn sydd gan ei waith i'w gynnig i'n dealltwriaeth o gymhlethdodau difyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

I raddau, mae bywyd Thomas Levi yn dilyn patrwm cyffredin Cymro deallus yn ei gyfnod. Ymgymhwyso ac ymwela oedd nod fawr y ganrif. Gyda thwf addysg a llythrennedd a'r llwybrau gyrfa newydd a gynigid i wŷr ieuanc gan Anghydffurfiaeth, drwy ddiwydrwydd a thipyn o lwc gallai dynion (ac yn ddiweddarach ambell fenyw nodedig megis Cranogwen) o gefndiroedd tlawd, digon di-nod ymddyrchafu yn arweinwyr eglwys a chymdeithas. Llwybr tebyg a ddilynodd Thomas Levi. Perthynai ei fagwraeth i fyd diwydiannol Cwm Tawe ac fe'i prentisiwyd yn ifanc yng ngwaith haearn Ynysgedwyn. Pe na bai wedi dangos awydd taer i ddysgu a gwella ei hun o oedran ifanc, yno y byddai wedi para byth, mae'n debyg. Ond ymrôdd i'w addysg: mynychai ysgol nos ac Ysgol Sul, darllenai yn annibynnol ac yn eang a dywedwyd amdano 'mor awyddus ydoedd am wybodaeth, ac mor awchus i achub pob cyfle i ddarllen, fel yr arferai glymu llyfr neu wers ar ei arddwrn fel y gallai yn hawdd edrych drosto ar bob hamdden a gafai; cyffelyb i'r arferiad personol o wisgo y 'wristlet watch'.'[5]

Rhaid oedd arddangos y fath ymroddiad personol, gan na ellid dibynnu ar addysg yr ysgol ddydd i ddiwallu'r fath ysfa am wybodaeth. Cynhelid ysgol ddydd Ystradgynlais gan 'Northman' meddw a syrthiai i gysgu yn y dosbarth.[6] Chwiliodd Thomas Levi yn daer am gyfleoedd i lenwi'r bylchau a adawyd gan yr addysg annigonol gynnar hon. Yn hynny o beth yr oedd yn nodweddiadol o ysfa oes y 'self-made man', ys dywed E. G. Millward:

> Un o gonglfeini'r oes oedd y gred y gallai pawb ei wella ei hun a 'dyfod ymlaen yn y byd' trwy ymarfer diwydrwydd a chynildeb a manteisio ar bob cyfrwng addysg oedd wrth law.[7]

Ond yn ogystal â'r meddylfryd uchelgeisiol hwn, sbardunwyd ef hefyd gan amcan efengylol. Gafaelodd crefydd yn Thomas Levi'n gynnar, dan ddylanwad ei fam yn bennaf. Cymeriad lliwgar oedd ei dad, John Levi, yn ôl pob tebyg, yn fardd gwlad a fynychai ffeiriau a thafarndai ac a yfai'n drwm. Ond gwraig dduwiol oedd ei fam, Prudence, a gynhaliai'r ddyletswydd deuluaidd gartref. Disgrifia Thomas Levi un achlysur cofiadwy sy'n cyfleu grym emosiynol y profiadau crefyddol teuluol hyn a'r ffaith na rennid hwy â'r tad:

> Yr oedd fy mam yn eistedd ar ganol yr aelwyd, ar hen gadair dderw isel; a'r plant, saith o nifer, rhai ar bob llaw iddi, yn gwneyd i fyny y cylch o flaen y tân. Ar y llawr yr eisteddwn i, ac yn nesaf i'r pentan. Yr oedd y Testament Newydd yn agored ar ei glin, wedi bod yn darllen pennod o honno. Yr oedd fy nhad yn y dafarn. Yr oedd yn noswaith dywyll, ystormllyd, a'r gwlaw yn curo yn drwm ar y ffenestr. Nid wyf yn cofio y bennod a ddarllenodd fy mam; ond ar ôl darllen y bennod, cyn myned ar ei gliniau i weddïo, dywedai wrthym am Iesu Grist, am Bethlehem, am ardd Gethsemane, am Galfaria, am y nefoedd, am uffern ac am y byd tragwyddol; ac yr oedd ei dagrau yn cwympo yn ddiarwybod iddi ar y Testament agored oedd ar ei glin. Yr oeddem ninnau, y plant, yn gwrando yn ddystaw, gan syllu ar ei gwyneb, a chydymdeimlo â'i dagrau.[8]

Nid dilyn ei dad i'r dafarn a wnaeth Thomas, ond danfon ei fam i'r seiat fin nos, a phan ddaeth yn ddigon hen dechreuodd grwydro'r wlad i ddilyn pregethwyr mawr y dydd, megis John Evans, Llwynffortun (1779–1847) a William Evans, Tonyrefail (1795–1891).[9]

Erbyn ei ugeiniau roedd yn sicr o'i alwad i wasanaethu Duw, ac eisoes wedi ymroi i'r ymdrech o ddarparu deunydd printiedig rhad, diddan a defnyddiol ar gyfer y Cymry drwy sefydlu cylchgrawn *Yr Oenig* ym1854. Misolyn a olygodd ar y cyd â David Phillips (1812–1904) oedd hwn ac amcanai gynnig amrywiaeth o ddeunyddiau am enwogion, cenhadon, darganfyddiadau, seryddiaeth yn ogystal â phregethau. Ond ni thyciodd y fenter am resymau ymarferol ac ariannol, a bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r cylchgrawn o fewn dwy flynedd. Erbyn 1857, ac yntau'n 31 oed, roedd Thomas Levi wedi ei ordeinio yn Sasiwn y Bont-faen a bu am y pum mlynedd nesaf yn weinidog Capel yr Ynys, Ystradgynlais. Yn ystod y cyfnod hwnnw sefydlodd ei ail fenter gyhoeddi, y misolyn dirwestol *Telyn y Plant* yn 1859. Y cyd-olygydd oedd y cerddor John Roberts ('Ieuan Gwyllt', 1822–1877) a'r bwriad oedd i'r cylchgrawn fod yn llawforwyn i ymdrechion y *Band of Hope*. Ceid eitemau amrywiol, yn bregethau, emynau, straeon a darluniau oll yn pwysleisio manteision dirwest a pheryglon y ddiod gadarn. Ond daeth y cylchgrawn i ben yn 1861 wrth i *Telyn y Plant* fel *Yr Oenig* o'i flaen fynd i drafferthion ariannol. Nid oedd hynny'n beth anghyffredin ym myd cyhoeddi cylchgronau'r

cyfnod. Roedd y costau argraffu sylweddol a'r diffyg rhwydweithiau cenedlaethol i gasglu tanysgrifwyr ac i ddosbarthu copïau yn rhwystrau amlwg. Ond ni adawodd Thomas Levi i'r profiadau hyn lesteirio ei frwdfrydedd:

> ... y mae'n amlwg fod Thomas Levi wedi dysgu gwersi pwysig yn y ddwy anturiaeth hyn. Nid oedd ei weledigaeth wedi pallu – fod gwir angen wynebu problemau cymdeithasol yr ieuenctid, fod rhaid i'r ysgrifennu fod yn blentyn-ganolog, a bod angen iddo fod yn eang ei rychwant – ond gwelai hefyd fod angen cefnogaeth yn y cyllido a'r dosbarthu.[10]

Felly, pan alwyd ef i ofalaeth Philadelphia, Treforys yn 1862, dechreuodd Thomas Levi ar brosiect pwysicaf ei fywyd, sef cyhoeddi *Trysorfa y Plant*. Dyma fenter a fyddai'n cyfuno ei weledigaeth a'i weithgarwch diflino ynghyd â threfniadaeth olygyddol ac ariannol gadarn a chefnogaeth lwyr y Cyfundeb. Rhoddodd y Gymdeithasfa yn Lerpwl a Machynlleth sêl eu bendith i'r cylchgrawn yn 1861,[11] a lansiwyd y rhifyn cyntaf fis Ionawr 1862. Roedd bellach hefyd yn ddyn priod, ond bu farw ei gymar, Elizabeth Daniel o Gwmgïedd, yn gynamserol yn 1871. Yna yn 1876, ac yntau'n briod â'i ail wraig Margaret Jones o Dalysarn (Sir Gaernarfon), derbyniodd alwad i'r Tabernacl, Aberystwyth. Bu'n weinidog yno tan 1901 a bu farw ym 1916, gwta bum mlynedd wedi iddo ildio golygyddiaeth *Trysorfa y Plant* wedi cyfnod o hanner canrif.

Rhychwantodd oes Thomas Levi yn agos at ganrif, a honno'n ganrif a drawsnewidiodd fywyd yng Nghymru ymron yn llwyr. Bu Levi yn rhan o'r berw diwydiannol ac ysbrydol a fyrlymai drwy'r wlad, ac ymroes ei egni'n llwyr i'r dasg o ddehongli a cheisio lliniaru effaith y newidiadau hynny ar fywyd yr unigolyn a'r gymuned. Gŵr a chanddo fydolwg realistig, bragmataidd ydoedd; gwyddai'n dda am effaith diota ar deuluoedd ac am bwysigrwydd tröedigaeth (ymunodd ei dad â'r gorlan Fethodistaidd yn ei henaint). Gwyddai am effaith tlodi ac apêl ymfudo, a hiraethai am ei rieni a'i bedwar brawd a ymfudodd i America gan ei adael 'yn unig ac amddifad' yn 1858, 'â'r môr mawr rhyngof â'r oll o'r teulu sydd yn fyw, a glyn tywyll cysgod angeu rhyngof â'r rhai sydd wedi marw'.[12] Bu'n byw ac yn gweithio mewn cymunedau trefol a wynebai'r her o gynnal poblogaeth gynyddol o dan amodau tlodaidd, difreintiedig ac fe wnaeth hyn Thomas Levi yn benderfynol o gynorthwyo ei gyd-ddyn i wella ei fyd.

Adleisiwyd egni'r cyfnod yn ymroddiad diflino Thomas Levi i wasanaethu ei bobl drwy amryfal ffyrdd yn bregethwr, gweinidog, athro, trefnydd, trysorydd, cyfieithydd, cofiannydd, awdur, golygydd, bardd ac emynydd. Yn ôl y meddylfryd cymedrol Calfinaidd y perthynai

iddo yr oedd hi'n ddyletswydd arno fel Cristion i ymateb i bob agwedd ar fywyd materol ac ysbrydol ei braidd, ac fe wnaeth hynny'n frwd drwy gydol ei oes. Enynnodd barch ei gyfoedion am ei ymroddiad llwyr i'w ddyletswyddau gweinidogol, ond mwy arhosol a phellgyrhaeddol ei ddylanwad oedd ei gyfraniad i'r wasg Gymraeg. Dyma a'i gwnaeth yn enw cenedlaethol ac a sicrhaodd ei le yn hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd.

Credai fod cydweithrediad y Pulpud, yr Ysgol Sul a'r wasg yn hanfodol i fywyd y Cymry. Meddai:

> O Wres y pulpud y cododd yr Ysgol, ac o anghen yr Ysgol y cododd y Wasg; ac y mae yr Ysgol a'r Wasg wedi talu yn ôl i'r Pulpud yn ddauddyblyg. Erbyn heddyw plant yr Ysgol Sul sydd yn llenwi pulpudau Cymru; a phlant yr Ysgol Sul sydd yn porthi y wasg a'i llenyddiaeth oreu. [13]

Nid cyfyngu ar botensial y wasg a wnâi'r cyswllt clos hwn â'r pulpud i rywun fel Thomas Levi, eithr ei rhyddhau. Yr oedd ei eangfrydedd yn golygu y credai nad oedd dim y tu hwnt i ofal a dylanwad yr eglwys. Rhaid oedd defnyddio'r wasg enwadol i drafod pob agwedd ar fywyd, nid y diwinyddol yn unig, er mwyn siapio bydolwg a gobeithio gwella rhagolygon bywyd y darllenwyr. A'r hyn sy'n gwneud Thomas Levi yn nodedig yw mai ef oedd un o'r cyntaf i sylweddoli grym y wasg argraffu i gyfathrebu yn neilltuol â'r genhedlaeth iau, gan felly ddylanwadu nid yn unig ar bresennol Cymru, ond ar ei dyfodol hefyd.

Trysorfa y Plant oedd ei gyfraniad pennaf i ddiwylliant Cymru. Cyfnodolyn y Methodistiaid Calfinaidd i blant ydoedd a'r Cyfundeb a oedd yn gyfrifol am ariannu, argraffu a dosbarthu copïau. Dyma'r sail gadarn o gefnogaeth a alluogodd y fenter i lwyddo. Bu cyhoeddi i blant yn weithgarwch a gysylltid erioed â chrefydd. Enwadau crefyddol a hybai cyhoeddi i blant, ac amcan efengylol a moeswersol oedd i'r llyfrau a'r cylchgronau a gynhyrchwyd. Ond roedd i'r 'Drysorfa Fach', fel y daethpwyd i'w hadnabod, apêl arbennig a'i gosodai ar wahân i'r cylchgronau eraill.[14] Dibynnai'r rhifynnau cynharaf ar y nawdd a ddarparwyd gan elw prif gylchgrawn yr enwad i oedolion, *Y Drysorfa*, ac ar y rhwydwaith parod o ddosbarthwyr a allai hybu gwerthiant a hysbysebu'r ddau gylchgrawn ar yr un pryd. Ond o fewn ychydig flynyddoedd *Trysorfa y Plant* a gynhaliai'r 'Drysorfa Fawr' ac yn 1867 roedd iddi gylchrediad misol o 25,602 o gymharu â 6,894 i'r *Drysorfa* yn ôl adroddiad Pwyllgor Llyfrau'r Cyfundeb.[15]

Cyrhaeddodd *Trysorfa y Plant* gylchrediad misol o tua 40,000 erbyn 1881 ac ar sail hynny, gellid amcangyfrif y rhifai ei gynulleidfa o leiaf gan mil bob mis.[16] Roedd rhwydwaith cysylltiadau eang Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd o gymorth, wrth gwrs, ond rhaid bod mwy wrth wraidd llwyddiant *Trysorfa y Plant* na hynny. Un rheswm oedd y diffyg deunydd

Cymraeg a anelwyd at blant a phobl ifanc ar y pryd. Llond llaw o lyfrau a oedd ar gael a thueddai'r cylchgronau plant eraill anelu at gynulleidfa enwadol yn bennaf, megis *Y* Winllan, dan ofal y Wesleaid. Rheswm arall am ei lwyddiant oedd ymroddiad personol Thomas Levi i'r dasg o ddarparu stôr o ddeunyddiau amrywiol a'u llywio'n ofalus i gyd-fynd â chwaeth yr oes.

I nifer, roedd dawn olygyddol Thomas Levi yn deillio o'i adnabyddiaeth o natur plant a phlentyndod. Fel hyn, er enghraifft, yr eglura'r Parch. John Ellis Meredith boblogrwydd *Trysorfa y Plant*:

> Adwaenai feddwl plentyn i'r dim, a gwyddai beth a apeliai at ei ddychymyg. Gofalai am ddigon o amrywiaeth, dyfeisiai bethau newydd a chywrain i ennyn diddordeb, a swynai ei ddarllenwyr o fis i fis. Ac nid plant yn unig a ddisgwyliai'n eiddgar am y rhifynnau; llwyddodd i wneud 'Y Drysorfa Fach' yn hudolus i bob dosbarth a bob oed. Daeth yn boblogaidd gyda phob enwad a thyfodd i fod yn 'sefydliad' cenedlaethol.[17]

Denodd *Trysorfa y Plant* ddarllenwyr, hen ac ifanc, o blith y Cyfundeb a'r tu hwnt iddi oherwydd dawn y golygydd i sicrhau cyflenwad digonol o ddeunydd amrywiol a difyr i gadw darllenwyr o fis i fis. Gallai amrywio'r naws o'r difrifol i'r digri, sicrhaodd luniau deniadol a chafodd wasanaeth llenorion a beirdd mwyaf adnabyddus Cymru.[18] O ganlyniad, creodd gylchgrawn a oedd fel pe bai'n adlewyrchu adnabyddiaeth ddihafal o anghenion y darllenwyr ifainc:

> Llwyddodd Levi, i raddau pellach na rhai o'i gyfoeswyr, i ystyried gwir anghenion darllen plant. Cyndyn fu awduron blaenorol i wneud hynny. Achub a chadw, rhybuddio a dwysbigo cydwybod – ni fu glastwreiddio ar esgyrn sychion y genadwri efengylaidd honno. Y neges oedd bwysicaf ac nid y ddiwyg, a hwyrfrydig oedd awduron i gymhwyso eu moesoli at chwaeth yr ifanc.[19]

Yr oedd Thomas Levi yn wahanol, a chyfarchai ei ddarllenwyr ifainc â llais tadol, serchog. Yn sicr roedd yn ŵr enwog ei hawddgarwch tuag at blant a phobl ifanc. Yn un o'r llu adroddiadau ar ei farwolaeth, dywedwyd amdano yn y *Goleuad*, Gorffennaf 1916:

> Yr oedd dylanwad Mr Levi ar blant megys swyn gyfaredd; byddai yn pregethu iddynt yn Nhreforis, a phlant y dref yn ymdynnu i'w wrando, yr oedd ei ymddangosiad siriol, ei wên serchus, a'i ymadroddion tlysion pert, yn hoelio eu sylw yn ddi-feth bob amser. Cefais y fraint o'i wrando yn pregethu ac yn darlithio lawer o weithiau, ac y mae yr adgofion yn felus odiaeth.[20]

Mae'r hynawsedd hwnnw i'w synhwyro yn y modd y llywiodd gynnwys ac arddull y 'Drysorfa Fach', megis athro gofalus. Fel y dywedodd Evan Evans, blaenor yn y Tabernacl, amdano, 'Dysgodd genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o'i ddarllenwyr o weled, i feddwl, i deimlo,

ac i ymddwyn yn deilwng...'.[21] Ond nid ei ddiddordeb tadol yn ei ddarllenwyr yn unig sydd i gyfrif am arddull a phoblogrwydd *Trysorfa y Plant*, ond hefyd y ffaith bod Thomas Levi yn olygydd a oedd yn ymrafael â chysyniadau newydd a phellgyrhaeddol am blant, a'r hyn a ystyrid yn addas ar eu cyfer. Daw hyn i'r amlwg o graffu ar rai enghreifftiau o'r hyn sydd gan Thomas Levi a'r 'Drysorfa Fach' i'w ddweud am natur plant a gwerth plentyndod.

Yn 'Adgofion Mebyd' Thomas Levi, er enghraifft, llythyr a gyhoeddwyd yn *Y Traethodydd* yn 1858, cynigir darlun o ddedwyddwch plentyndod sy'n wahanol iawn i'r hyn a ddywedwyd am blentyndod yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyfnod yn llawn peryglon a themtasiynau i gilio arno'n sydyn oedd plentyndod yng nghylchgronau plant enwadol a chofiannau pregethwyr y pryd. Roedd plentyndod yn dwysau'r pwysau i geisio achubiaeth ar frys rhag i bechod a'r bedd gymryd eneidiau rhai bach cyn pryd. Meddylir, er enghraifft, am hunangofiant Thomas Jones, Dinbych lle y mae'r henwr yn ffieiddio at ei ddrygioni chwareus pan oedd yn blentyn, neu at bregethau Piwritanaidd Daniel Williams ar wagedd mebyd ac ieuenctid a rybuddiai bod pob plentyn 'wrth [ei] natur yn anifeilaidd a chythreulig'.[22] Ond yn ei lythyr i'r *Traethodydd*, yr hyn a wna Thomas Levi yw mynd â ni yn ôl i fwthyn ei fagwraeth. Yno, cyflwyna ddarlun hiraethus, delfrydol o'r rhyddid a fwynhâi'n seithmlwydd oed yn chwarae 'yn droednoeth, ac yn bennoeth, mor hoew â'r brithyll, yn chwareu pob campau plentynnaidd, yn dringo y coed, yn chwilio y perthi am wialen, a bando, yn tynnu brwyn o'r gwreiddiau, ac yn plethu cap cornicyll â hwynt, ac heb ofal am ddim, ond chwareu, bwyta, a chysgu.'[23] Mae'r hiraeth am y cyfnod gwynfydedig yn amlwg, ac y mae tinc rhamantaidd i'r modd y delfryda'r byd cyfyng, ond cwbl fodlon a dedwydd hwn:

> Yr oeddwn mor ddedwydd y pryd hwnnw ag angel bychan...heb gyfoeth nac addysg, na rhagolygiad yn y byd... A ydych chwi ddim yn credu mai dyna y pryd yr oeddwn i yn fwyaf o ŵr bonheddig? Ai nid y plentyn sydd yn cael i godi felly yn y bwthyn gwledig, ar fwyd garw, ond iachus... – yn chwareu ar hyd yn twyni gwyrddlas, yn crwydro ar hyd glanau y nentydd trystiog, a thrwy y coedydd a'r cilfachau... – ai nid hwn yw y mwyaf annibynnol o bawb?[24]

Mae cyffyrddiad o syniadaeth Jean-Jacques Rousseau yma, yn arbennig ei honiad yn yr ysgrif ar addysg a natur dyn, *Emile* (1762), mai llygru plentyn a wna addysg a chymdeithas, ac y dylid gwarchod plentyn rhagddynt gyhyd ag sy'n bosibl. 'Da yw popeth fel y daw o ddwylo Awdur y cwbl, dirywio a wna yn nwylo dyn,' meddai Rousseau.[25] Wrth i Thomas Levi adleisio'r syniad hwn, rydym bellter byd oddi wrth ysgrifau Cymraeg hanner canrif ynghynt ar blentyndod a bwysleisiai natur lygredig y plentyn a'i angen parhaus am achubiaeth.

Yn yr un modd, mae'r adroddiadau am farwolaethau plant bychain a geid yn fynych yn y 'Drysorfa Fach' – a phrif thema llên plant y ganrif, mewn gwirionedd – yn adlewyrchu'r pwyslais newydd ar ddiniweidrwydd a'r diddordeb yn hynodrwydd a hyfrydwch plentyndod. Roedd straeon ddechrau'r ganrif am farwolaethau plant bychain yn pwysleisio'r dröedigaeth ysbrydol a gâi plant mor ifanc â phedair blwydd oed, eu hymdrechion i ledaenu'r efengyl ymysg eu teuluoedd a'u cyfeillion, ac yna eu dewrder yn wyneb marwolaeth. Nid oes yr un cylchgrawn i blant o ddechrau'r ffurf yn 1823 (pan gyhoeddwyd *Yr Addysgydd* dan olygyddiaeth Hugh Hughes yr artist a David Charles), nad yw'n cynnwys myrdd o'r straeon hyn. Roedd marwolaethau babanod a phlant yn rhy gyffredin o lawer, wrth gwrs, a'r straeon hyn yn cynnig gwedd bositif, os nad buddugoliaethus ar drasiedïau a gyffyrddai â bywydau pawb. Ond erbyn cyfnod *Trysorfa y Plant*, nid y wedd ysbrydol, efengylol a bwysleisir, ond y boen o golli llygedyn o harddwch o'r byd. Mae'r adroddiadau'n fwy personol, wedi eu llunio'n aml gan rywun a oedd yn adnabod y plentyn dan sylw a chlodforir, nid y dröedigaeth a'r efengylu a gyflawnodd, ond harddwch ei bryd a'i wedd, ei allu cerddorol rhagorol neu ei hoffter anghyffredin o ddarllen. Roedd William bach o Benybryn, a foddodd yn afon Ogwen, yn medru darllen Cymraeg a Saesneg yn bum mlwydd oed, er enghraifft,[26] a Margaret Jane Price o'r Dowlais yn ferch 14 oed anghyffredin o ddeallus:

> Bu farw yn lled sydyn ac annisgwyliadwy, pan yr oeddem yn y cyfarfod eglwysig, a daeth y gair i'r capel rhyw ffordd fod Margaret Jane wedi marw, a cherddodd fel tân trwy y gynulleidfa, gan greu y fath ias o dristwch yn mynwes pawb oedd yn bresennol, fel y bu raid i ni droi y cyfarfod i fyny ar ei ganol. Mae hyn ynddo ei hunan yn siarad yn bur uchel am ei chymeriad; teimlem fod un o'r perlau disgleiriaf ac anwylaf a adnabuasem erioed wedi ei gymeryd ymaith o'n plith.[27]

Nodweddid Dora Williams o Dyddewi gan wyleidd-dra mwy na chyffredin a llais canu a wefreiddiodd y sawl a'i clywodd:

> Maddeued ysgrifennydd y llinellau canlynol, yr hwn sydd weinidog parchus yn y Cyfundeb, i ni am osod i lawr yma ychydig linellau, y rhai a adawn yn anghyfieithiedig, allan o lythyr a ysgrifennodd at rieni Dora ar ôl clywed o honno ei bod wedi marw:- 'Her dear voice seemed to us not merely melodious – that may be said of many voices – but as if coming from another world with a quiet quake and thrill, filling the ear with almost angelic music, and moving us mightily to the very depths of our nature. We shall not forget some of her tones to our dying day. It was not art, but something God-given and God-sent.'[28]

Dengys yr enghreifftiau hyn fod cysyniadau ynghylch gwerth plentyndod yn newid ac y credid bellach y meddai'r plentyn ar gyneddfau naturiol, greddfol. Roedd y rheini'n ddigon i ennyn edmygedd a chariad heb fod angen cyfiawnhau dyrchafu'r plentyn drwy ei gyplysu â thröedigaeth efengylaidd. Mae plentyndod bellach yn rhywbeth i'w gymryd o ddifri, nid

oherwydd perygl pechod ac angau ond oherwydd potensial a hyfrydwch y cyfnod arbennig hwn. I gyd-fynd â'r agwedd gadarnhaol hon, rhoddid mwy o le ac amlygrwydd i blant o fewn y gymdeithas ac ym mywyd yr eglwysi erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cynhelid cyfarfodydd a gwasanaethau pwrpasol ar eu cyfer, sefydlwyd y *Band of Hope* yn fudiad i'r ieuenctid yn bennaf, cyfansoddid emynau unswydd i blant eu canu mewn cymanfaoedd a chynhelid gorymdeithiau enwadol a dirwestol. Bwydai *Trysorfa y Plant* ar yr egni hwn a fuddsoddwyd yn y genhedlaeth iau.

Nid oedd yr un o olygyddion nac awduron diwyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg mor egnïol â Thomas Levi. Gweithiau 'fel ceffyl *coach*', yn ei eiriau ei hun,[29] yn sicrhau ansawdd a chynnwys y 'Drysorfa Fach' ond hefyd yn diwallu anghenion darllenwyr o bob oed am ddeunydd llesol ac amrywiol yn y Gymraeg. Cyhoeddodd gyfrolau gwreiddiol a chyfieithiadau gyda nifer helaeth ohonynt yn draethodau bychain o dan nawdd Cymdeithas y Traethodau Crefyddol. Sefydlwyd cangen Gymraeg y Gymdeithas honno yn 1875 a bu Thomas Levi yn olygydd cyhoeddiadau iddi.[30] Dengys Dafydd Arthur Jones mai ymateb bwriadus i angen dirfawr am werslyfrau a deunydd darllen addas i ddibenion addysg yr Ysgol Sul 'oedd wrth wraidd dygn lafur Levi' ac 'oherwydd pwysau amser, yn bennaf, rhaid oedd dibynnu'n fynych ar gyfieithiadau o'r iaith fain'.[31] Ond bu'n cywain deunyddiau hefyd er mwyn yn adlewyrchu'r diddordeb cynyddol yn y byd naturiol, athroniaeth a digwyddiadau'r dydd, megis '*Rhyfel y Crimea o Laniad y Byddinoedd unedig hyd gwymp Sebastopol (wedi ei gymryd o lythyrau Gohebydd y 'Times' ac Adroddiadau y Cadlywyddau)* a ymddangosodd o'r wasg yn 1855. Cofier hefyd mai ef oedd un o'r cyntaf i gyfieithu *Uncle Tom's Cabin* gan Harriett Beecher Stowe i'r Gymraeg yn 1853 a hynny'n adlewyrchu ei awydd i ddwyn dylanwadau llenyddol a gwleidyddol buddiol i'r Gymraeg.

Wrth dafoli'r deunyddiau amrywiol hyn, dywed Dafydd Arthur Jones, 'Prin yr oedd gwerth llenyddol i'r holl gynnyrch, ac eto llwyddodd i ogwyddo'i holl egnïon fel awdur i ddibenion iwtilitaraidd gan gynhyrchu cyfrolau cwbl gydnaws â theithi meddwl y ganrif'.[32] A dyma ddychwelyd at yr hyn sydd wedi ein rhwystro rhag edrych o ddifri ar gynnyrch y bedwaredd ganrif ar bymtheg - sef y swmp enfawr o ddeunyddiau na chredir bod ynddynt fawr o werth arhosol. Mae hynny'n dwyn i gof y modd y disgrifiodd Thomas Parry y dasg o ddehongli gwaith y ganrif yn *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*:

> Nid gwaith syml fydd ceisio crynhoi o fewn tair pennod nodweddion llenyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y cyfnod mwyaf cynhyrchiol yn holl hanes ein llên, a'r cyfnod a welodd gyfnewidiadau mawr iawn ym mhob agwedd ar fywyd y genedl - yn

> grefyddol, yn addysgol, yn gymdeithasol, yn wleidyddol... Cychwynnwyd yn ystod y ganrif nifer enfawr o gylchgronau; cynhyrchwyd llu mawr o lyfrau a phamffledi crefyddol; cyhoeddwyd cofiannau i wŷr mawr a gwŷr bach yr oes; ailargraffwyd gweithiau llenorion yr oesoedd cynt... Ac eto, cyfartaledd bychan iawn o gynnyrch y ganrif, na barddoniaeth na rhyddiaith, a gymeradwyir gan feirniaid llenyddol heddiw.[33]

Efallai'n wir nad oes fawr o foddhad ar lefel esthetaidd i'r darllenydd cyfoes yng ngwaith Thomas Levi, a phrin iawn yw'r deunydd ar dudalennau *Trysorfa y Plant* yr ystyrid hwy'n addas i'w rhoi i blant heddiw. Ond y mae'n rhaid ymdrin â chynnyrch llenyddol Thomas Levi os ydym am ddeall sut y defnyddid y gair printiedig i gyfryngu syniadau a gwerthoedd ymysg cymunedau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwnaeth Thomas Levi ei ddaliadau Cristnogol, dirwestol a gwleidyddol yn fwyd llwy i gynulleidfaoedd y cyfnod drwy gyfrwng cylchgronau, traethodau, emynau a cherddoriaeth – gyda *Cantata'r Adar neu Cantata'r Plant* a berfformiwyd gyntaf yn y Tabernacl, Aberystwyth 17 Mawrth 1867,[34] yn goron ar y cyfan. Ffrwyth cyd-weithio â'r cerddor Joseph Parry oedd y cantata, ac fe'i canmolwyd am ei symlrwydd swynol. Honnodd Thomas Davies, Birch Grove yn 1916 'iddo gael datganiad amlach nag un llyfr arall a gyhoeddwyd yn y Gymraeg... Gem fach farddonol a cherddorol, nid rhyfedd ei phoblogrwydd'.[35] Dyma brawf mai poblogeiddiwr heb ei ail oedd Thomas Levi a wyddai sut i foddio chwaeth cynulleidfaoedd Oes Victoria.

Eithr nid un i gynhyrfu'r dyfroedd ydoedd. 'Ni rannai Levi yr un delfrydau ag O. M. Edwards ac nid oedd yn fwriad ganddo i ddeffro cenedl a fu gyhyd o dan sawdl'.[36] Cywair Prydeingar sydd i lawer iawn o'r deunyddiau a gynhyrchodd, gyda thudalennau *Trysorfa y Plant* yn frith o arwyr Prydain a'r ymerodraeth megis aelodau'r teulu brenhinol, gwleidyddion amlwg y dydd a chadfridogion y lluoedd arfog. Cefnogodd achos sefydlu achosion Saesneg gan ddatgan yn 1876 eu bod yn 'fater bywyd i'r Cyfundeb' gan fod 'yr iaith Saesneg yn gormesu'n drwm, a chylch y weinidogaeth Gymreig ym myned leilai bob blwyddyn'.[37] Cyd-fynd â phrif ffrwd meddylfryd Anghydffurfiol Rhyddfrydol y cyfnod a wnâi ar faterion gwleidyddol ac ieithyddol a diau fod hynny'n rhoi cyfri am y gefnogaeth lwyr a roddwyd iddo fel gweinidog a golygydd am dros hanner canrif.

O ganlyniad i'r hirhoedledd hwnnw, naddodd Thomas Levi le arbennig yng nghalonnau cenedlaethau o ddarllenwyr, fel y tystia adroddiad *Y Cymro* ar ei farwolaeth: 'Deffroir atgofion rhyfedd mewn llu o galonnau gan y newyddion syml fod Thomas Levi wedi marw. Ef oedd arwr plant Cymru'.[38] *Trysorfa y Plant,* yn anad yr un agwedd arall ar ei weithgarwch mawr, a roes iddo'r fath safle:

> Thomas Levi a greodd 'Trysorfa y Plant', a dyna ei brif waith. Gosododd ei ddelw ei hun arni ar unwaith... Drwy gyfrwng 'Trysorfa'r Plant' y bu yn fwyaf defnyddiol, ac yn fwyaf ei ddylanwad. Rhifai ei gynulleidfa o leiaf gan' mil bob mis ar gyfartaledd, a rhaid oedd iddo ddarparu ymborth newydd at bob rhifyn. Nid yw safle y pregethwr mwyaf poblogaidd yn y wlad yn ddim yn ymyl y safle a enillodd ac a gadwodd Thomas Levi.[39]

Nid rhyfedd felly, pan fu farw Thomas Levi 16 Mehefin 1916, ac yntau'n ddeg a phedwar ugain mlwydd oed, i'r genedl synhwyro fod un o wŷr mawr yr oes wedi eu gadael. Ar ddiwrnod ei angladd ymhen pum diwrnod, 'ymgasglodd torf enfawr at byrth ei gartref' yn Aberystwyth. Oddi yno arweiniodd Prif Gwnstabl ac Uwch-arolygydd y sir orymdaith o blant Ysgol Sul y Tabernacl, bechgyn yr Ysgol Ganolradd a'u hathrawon, gweinidogion yr efengyl, y cyhoedd, yr elorgerbyd ac yna'r galarwyr i'r gwasanaeth ar lan y bedd.[40] Cynhaliwyd gwasanaeth coffa yn y Tabernacl iddo am saith yr hwyr lle canmolwyd y 'diwrnod ardderchog o waith' a gyflawnodd. Mae i'r adroddiad ar ei angladd yn y *Goleuad* a'r teyrngedau eraill ymwybyddiaeth, nid yn unig o faint cyfraniad Thomas Levi, ond hefyd fod ei farwolaeth yn dynodi darfod cyfnod. 'Perthynai i oes y cewri yn y byd pregethwrol. Trwy ei farw ef torrwyd y cysylltiad olaf â'r cyfnod euraidd hwnnw', medd *Y Goleuad*,[41] a honna gohebydd *Y Cymro* y byddai plant heddiw'n rhyfeddu o 'sylweddoli y swyn oedd i blant Cymru yn 'Nhrysorfa'r Plant' o 1862 hyd dyweder 1882'.[42] Â hwythau yng nghanol drycin y Rhyfel Mawr, nid rhyfedd i'r sylwebwyr weld marwolaeth Thomas Levi megis colli gafael ar gadernid a diniweidrwydd y gorffennol. Yr oedd yr oes wedi newid. Roedd yr hyn a ystyrid yn addas ar gyfer plant wedi newid hefyd fel na allai *Trysorfa y Plant,* dan ofal y golygydd newydd Anthropos ac yn wyneb trawsnewidiadau crefyddol, diwylliannol a chymdeithasol yr ugeinfed ganrif, fyth hawlio'r un lle canolog ym magwraeth plant Cymru eto.

Gyda marwolaeth Thomas Levi ac erchyllterau rhyfel, daeth terfyn ar 'y ganrif fwyaf', ond nid felly ei dylanwad, fel y mynnodd Hywel Teifi. Yng ngeiriau Peredur Lynch eto:

> Er bod ein collfarn arni,
> Mynnu wnest mai ei phlant ŷm ni.[43]

O ystyried dylanwad Thomas Levi ar hanner canrif o ddarllenwyr, gellir yn wir synied am Gymry'r ugeinfed a'r unfed ganrif ar hugain megis disgynyddion, anystywallt ar brydiau, i arweiniad tadol *Trysorfa y Plant*. Gwrthododd rhai o'r plant hynny dderbyn gostyngeiddrwydd y 'Drysorfa Fach' yn wyneb twf y Saesneg a grym y dylanwadau Prydeinig; collodd eraill yr awydd i uniaethu â sêl efengylol y cylchgrawn. A throdd

niferoedd cynyddol oddi wrth y Gymraeg yn gyfan gwbl. Ond er y perthyn *Trysorfa y Plant* i orffennol a aeth heibio, ni thâl inni droi Thomas Levi o'r neilltu yn llwyr. Y mae'n rhan greiddiol o ddatblygiad ein meddwl a'n dychymyg cenedlaethol.

SIWAN M. ROSSER, Prifysgol Caerdydd

---

[1] Hywel Teifi Edwards, 'Llef dros y ganrif fwyaf,' yn Geraint H. Jenkins, gol., *Cymru a'r Cymry 2000: trafodion cynhadledd Prifysgol Cymru* (Aberystwyth, 2001), tt. 71–86.
[2] Peredur Lynch. 'Y Ganrif Fwyaf' yn Tegwyn Jones a Huw Walters goln, *Cawr i'w Genedl: Cyfrol i gyfarch yr Athro Hywel Teifi Edwards* ((Llandysul, 2008), t. xiii.
[3] Gweler E.G. Millward, *Cenedl o Bobl Ddewrion: agweddau ar lenyddiaeth Oes Victoria* (Llandysul, 1991), Jane Aaron, *Pur Fel y Dur: y Gymraes yn llên menywod y bedwaredd ganrif ar bymtheg* (Caerdydd, 1998); Simon Brooks, *Pam na fu Cymru? Methiant cenedlaetholdeb Cymraeg* (Caerdydd, 2015).
[4] Rhaid cydnabod gwaith hollbwysig y diweddar Dafydd Arthur Jones i roi sylw haeddiannol i Thomas Levi. Cyhoeddodd ffrwyth ei ddoethuriaeth ar Thomas Levi mewn cyhoeddiadau fel *Thomas Levi*, Cyfres Llên y Llenor (Caernarfon, 1996).
[5] Thomas Davies, 'Y Parch. Thomas Levi', *Y Goleuad*, 14 Gorffennaf 1916, 9.
[6] Jones, *Thomas Levi*, Llên y Llenor, t. 6.
[7] E. G. Millward, 'Cymhellion cyhoeddwyr yn y XIX ganrif', yn Thomas Jones gol., *Astudiaethau amrywiol a gyflwynir i Syr Thomas Parry-Williams* (Caerdydd, 1968), t. 70.
[8] Thomas Levi, 'Atgofion Mebyd', *Y Traethodydd*, iv (1858), 87.
[9] Jones, *Thomas Levi*, Llên y Llenor, t. 6.
[10] Brynley F. Roberts, 'Llenyddiaeth a Chyhoeddi' yn John Gwynfor Jones gol., *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru. Cyfrol 3, Y Twf a'r Cadarnhau* (c.1814–1914), t. 197.
[11] Ibid.
[12] Levi, 'Adgofion Mebyd', 89.
[13] Thomas Levi, 'Dylanwad yr Ysgolion Sabbothol ar Lenyddiaeth Cymru', *Y Traethodydd*, lvii (1902), 14–20.
[14] Am ysgrif gynhwysfawr ar gyd-destun a chynnwys *Trysorfa y Plant* gw. R. Tudur Jones, 'Darganfod Plant Bach: Sylwadau ar Lenyddiaeth Plant yn Oes Victoria', yn *Ysgrifau Beirniadol VIII* (1974), tt. 160–204.
[15] Roberts, 'Llenyddiaeth a Chyhoeddi', t. 208.
[16] d.e., 'Thomas Levi', *Y Cymro*, 28 Mehefin 1916, 5.
[17] J. E. Meredith, *Thomas Levi, sefydlydd Trysorfa y Plant a'i golygydd am hanner can mlynedd* (Caernarfon, 1962), t. 35.
[18] Nia Roberts, 'Thomas Levi 1826–1916' yn Mariwen a Gwynn Jones goln, *Dewiniaid Difyr: Llenorion Plant Cymru hyd tua 1950* (Gomer, 1983), tt. 17, 19.
[19] Dafydd Arthur Jones, 'Hen Swynwr y 'Sorfa Fach' yn G. H. Jenkins gol., *Cof Cenedl XI* (Llandysul, 1996), t. 197.
[20] Thomas Davies, 'Y Parch. Thomas Levi', *Y Goleuad*, 14 Gorffennaf 1916, 9.
[21] Meredith, *Thomas Levi*, t. 39.
[22] Am drafodaeth bellach gweler Siwan Rosser 'Thomas Jones, Dinbych a'i *Anrheg i Blentyn*', *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 32 (2008), 44–73.
[23] Levi, 'Adgofion Mebyd', 88.
[24] Ibid.

[25] Jean-Jacques Rousseau, *Emile, Jean-Jacques Rousseau – detholion*, cyf. R. M. Jones (Caerdydd, 1963), t. 3.
[26] *Trysorfa y Plant*, Tachwedd 1872, 298–99.
[27] *Trysorfa y Plant*, Ionawr 1882, 22–23.
[28] *Trysorfa y Plant*, Mai 1882, t. 120.
[29] Jones, *Thomas Levi*, Llên y Llenor, t. 7.
[30] Roberts, 'Thomas Levi 1835-1916', t. 14.
[31] Jones, *Thomas Levi*, Llên y Llenor, t. 15.
[32] Ibid., t. 19.
[33] Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1944), t. 228.
[34] Jones, *Thomas Levi*, Llên y Llenor, tt. 23–24.
[35] Davies, 'Y Parch. Thomas Levi', 9.
[36] Jones, 'Hen Swynwr y 'Sorfa Fach', t. 110.
[37] Dafydd Andrew Jones, 'Y Genhadaeth Gartref a Thramor', yn John Gwynfor Jones gol., *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru. Cyfrol 3, Y Twf a'r Cadarnhau* (c.1814–1914), tt. 448-49.
[38] d.e., 'Thomas Levi', *Y Cymro*, 5.
[39] Ibid.
[40] d.e. 'Angladd y Parch. Thomas Levi', *Y Goleuad*, 30 Mehefin 1916, 12.
[41] Ibid.
[42] d.e., 'Thomas Levi', *Y Cymro*, 5.
[43] Peredur Lynch. 'Y Ganrif Fwyaf', t. xiv.

[A discussion of the career of the Welsh Presbyterian minister, Rev. Thomas Levi, best known for his editorship of the journal Trysorfa y Plant (The Children's Treasury) between 1862 and 1911.]